Ardal label claf

# Gwybodaeth i gleifion am gapsiwlotomi laser YAG

Cynlluniwyd y daflen hon i roi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch cyn, yn ystod ac ar ôl i chi gael llawdriniaeth capsiwlotomi laser YAG



Newmedica
Eye Health Clinics | Surgical Centres

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Gwybodaeth i gleifion | 2 |
| Capsiwlotomi laser YAG | 3 |
| Triniaethau eraill posibl | 3 |
| Manteision a risgiau capsiwlotomi laser YAG | 4 |
| Rhai cymhlethdodau posibl ar ôl y llawdriniaeth | 4 |
| Penodiad claf allanol laser | 5 |
| Y driniaeth | 7 |
| Ar ôl y driniaeth | 8 |
| Eich cwestiynau | 9 |
| Ffurflen cydsynio | 11 |


**Penodiad claf allanol laser**
Adran Cleifion Allanol Clinig

**Dyddiad ac amser**

D D M M B B B B A A : M M

# Gwybodaeth i gleifion

Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth i chi a fydd yn eich helpu i benderfynu a ydych am gael capsiwlotomi laser YAG ai peidio Efallai y byddwch am ei thrafod gyda pherthynas neu ofalwr.

Cyn i chi gael y driniaeth, bydd gofyn i chi arwyddo ffurflen gydsynio i nodi eich bod yn deall manteision a risgiau'r driniaeth. Felly mae'n bwysig eich bod yn deall y daflen cyn i chi benderfynu cael llawdriniaeth.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, efallai yr hoffech eu hysgrifennu fel y gallwch ofyn i un o staff yr ysbyty. Mae lle ar dudalen 9 i chi ysgrifennu cwestiynau.

# Capsiwlotomi laser YAG

Ar ôl eich llawdriniaeth cataract, mae'r sach glir (capsiwl) yng nghefn y llygad, lle mae'r lens artiffisial wedi'i osod, wedi mynd yn gymylog. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i chi weld yn glir, fel petaech chi'n edrych trwy wydr cymylog, neu fel petai'r cataract yn dod yn ôl. Mae hyn yn gallu digwydd unrhyw bryd ar ôl llawdriniaeth cataract, a'r enw arno ydy 'didreiddiad capsiwl ôl' neu 'posterior capsular opacification' (PCO).

Mae capsiwlotomi laser YAG yn driniaeth ar gyfer PCO sydd yn creu twll yng nghanol y capsiwl cymylog gyda phaladr laser. Mae hynny'n galluogi golau i fynd i mewn i'r llygad yn rhwyddach, gan adfer golwg glir, cyn belled â bod gweddill y llygad yn iach.

Bydd eich ymarferydd nyrsio neu optometrydd yn trafod y risgiau a'r manteision cysylltiedig cyn i chi gydsynio i gael y driniaeth.

# Triniaethau eraill posibl

Does dim rhaid i chi gael triniaeth laser os nad ydych chi

eisiau. Fodd bynnag, nid oes unrhyw driniaethau eraill yn lle capsiwlotomi laser YAG y gwyddir amdanynt ar hyn o bryd.

# Manteision a risgiau capsiwlotomi laser YAG

Gwella eich golwg a lleihau problemau golwg aneglur.

Fodd bynnag, dylech chi ddeall bod risg fach iawn o gymhlethdodau ar ôl y driniaeth.

# Rhai cymhlethdodau posibl ar ôl y driniaeth

**Cyffredin hyd at 1 o bob 20, dros dro fel arfer**

- Mae brychau yn y llygad yn gyffredin wedyn ac yn ddiniwed fel arfer ond gallent fod yn barhaus
- Anghysur
- Llid yn siambr flaen y llygad
- Cynnydd byrhoedlog yn y gwasgedd yn y llygad

**Llai cyffredin hyd at 1 o bob 100**

- Y macwla'n chwyddo (oedema macwlaidd)
- Y driniaeth yn methu
- Newid yn y plygiant yn y llygad

**Prin hyd at 1 o bob 1000**

- Niwed i'r lens sydd wedi'i fewnblannu yn y llygad
- Afleoli'r lens sydd wedi'i fewnblannu
- Rhwyg/datodiad y retina

Efallai hefyd y cewch gur pen ysgafn wedi'r driniaeth oherwydd y goleuadau llachar a ddefnyddir yn ystod y driniaeth.

Os bydd hynny'n digwydd, byddem yn argymell eich bod yn dilyn eich trefn arferol ar gyfer cur pen.

Er bod cymhlethdodau yn sgil y driniaeth hon yn anghyffredin, mae'r siawns y gall unrhyw broblemau ddigwydd yn dibynnu ar iechyd cyffredinol eich llygad a ffactorau eraill, megis eich iechyd yn gyffredinol.

Gofynnwch i'ch ymarferydd gofal iechyd egluro unrhyw risgiau sy'n perthyn yn benodol i chi.

# Penodiad claf allanol laser

Triniaeth cleifion allanol ydy hon ac mae'n cael ei chyflawni gan Feddyg, Nyrs neu Optometrydd sydd yn ymarferydd cymwys.

Mae'n debyg y byddwch yn y clinig am 1-2 awr.
Gall y penodiad ar gyfer asesiad cyn-llawdriniaeth ddigwydd ar ddiwrnod y driniaeth.

Dylech chi barhau i gymryd eich meddyginiaeth a'ch deiet arferol cyn y driniaeth.

Cyflwynwch eich hunan yn y dderbynfa - byddwch chi'n cael eich tywys i'r
ystafell triniaeth laser a bydd y camau canlynol yn digwydd.

- **Mesur craffter gweledol** – bydd aelod o'r tîm yn mesur eich golwg gan ddefnyddio siart llythrennau.
- **Diferion llygad** – ar ôl i'ch golwg gael ei brofi, bydd diferion yn cael eu gosod yn y llygad/llygaid er mwyn ymagor cannwyll eich llygad. Gall gymryd hyd at 20 munud i hyn weithio.
- **Asesiad cyn-llawdriniaeth** – bydd ymarferydd gofal iechyd yn mynd trwy gyfres o wiriadau sy'n gysylltiedig â'ch triniaeth laser.
- Bydd yr ymarferydd gofal iechyd yn egluro manteision a risgiau'r driniaeth ac yn gofyn i chi arwyddo ffurflen cydsynio. Mae'r ffurflen wedi'i chynnwys yn y llyfryn hwn ar dudalennau 11-12. Rydym yn argymell y dylech ddarllen y ffurflen yn ofalus a nodi unrhyw gwestiynau yr hoffech eu gofyn.

Bydd angen i chi ddod â rhestr o'ch meddyginiaethau cyfredol gyda chi ar gyfer y penodiad.

# Y driniaeth

Diben y driniaeth claf allanol hon ydy defnyddio laser i greu twll yn leinin cefn cymylog y capsiwl lens.

Mae hynny er mwyn gadael i olau fynd trwodd at y retina yng nghefn eich llygad, gan adfer eich golwg.

Bydd gofyn i chi eistedd mewn cadair ac efallai y bydd eich ymarferydd gofal iechyd yn rhoi lens cyffwrdd bach ar eich llygad er mwyn ffocysu'r paladr laser. Gofynnir wedyn i chi orffwys eich gên o flaen y peiriant laser (lamp hollt) er mwyn helpu i gadw'ch llygad yn llonydd.

Bydd eich ymarferydd gofal iechyd yn cyfeirio paladr laser yn ofalus i mewn i'ch llygad. Mae'n bosib y gwelwch chi gyfres o oleuadau llachar yn ystod y driniaeth. Mae'r laser yn gwneud sŵn clician yn ystod y driniaeth, ond does dim poen gyda hynny.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn eistedd ac yn cadw'ch pen yn llonydd yn ystod y driniaeth er mwyn osgoi niwed i rannau eraill o'r llygad.

Wedi i'r diferion ar gyfer y llygad dreulio, dylech chi sylwi bod y cymylau yn eich golwg wedi lleihau a'ch golwg wedi gwella. Bydd graddau'r gwelliant yn dibynnu ar ba mor gymylog oedd eich golwg ar y dechrau ac ar iechyd cyffredinol eich llygad.

Mae'r driniaeth yn ddi-boen a dylai gymryd hyd at 10 munud i'w chyflawni.

# Ar ôl y driniaeth

Rydych yn rhydd i fynd adref ar ôl eich triniaeth. Bydd eich golwg yn aneglur dros dro ar ôl y driniaeth ond dylai wella dros yr ychydig oriau wedyn.

Efallai y cewch chi bresgripsiwn ar gyfer diferion a/neu dabledi i chi eu cymryd am hyd at 3 diwrnod ar ôl y driniaeth. Bydd staff yr ysbyty yn egluro sut a phryd y dylech eu defnyddio.

Os byddwch chi’n sylwi ar boen difrifol neu'n colli golwg, neu os bydd angen cyngor brys arnoch ynglŷn â’ch llygad, ffoniwch y rhif argyfwng sydd ar glawr cefn y llyfryn hwn.

Nid oes angen penodiad dilynol wedi'i drefnu ar ôl triniaeth laser YAG ar lawer o gleifion. Mewn achosion pan fydd angen hynny, bydd eich llawfeddyg yn ei drefnu ar eich cyfer.

# Nodyn atgoffa pwysig

Ni fyddwch yn gallu gyrru adref yn dilyn y driniaeth. Y rheswm am hynny ydy y bydd y diferion llygad a ddefnyddir ar gyfer y driniaeth yn ymagor cannwyll eich llygad dros dro ac yn gwneud eich golwg yn aneglur.

# Eich cwestiynau

Gobeithio bod y wybodaeth yma yn ddigon i'ch helpu i benderfynu a ydych am gael y llawdriniaeth ai peidio.

Defnyddiwch y gofod isod i ysgrifennu unrhyw gwestiynau pellach i'w gofyn i'r meddyg neu'r nyrs pan fyddwch yn dod i'r ysbyty ar gyfer eich penodiad.

Peidiwch â phoeni am ofyn cwestiynau. Bydd ein staff yn hapus i'w hateb.

MAE’R DUDALEN HON YN WAG YN FWRIADOL

# FFURFLEN CYDSYNIO – CYTUNDEB Y CLAF I

DRINIAETHAU DAN ANAESTHETIG LLEOL

Ardal label claf

Gwryw Benyw

Enw’r driniaeth
(rhowch esboniad byr os nad yw'r term meddygol yn glir)

[Nodwch pa ochr yw’r llygad]

**CAPSIWLOTOMI LASER YAG**
O DAN ANAESTHESIA LLEOL

**Datganiad gweithiwr iechyd proffesiynol (i’w lenwi gan weithiwr iechyd proffesiynol sydd â gwybodaeth briodol am y driniaeth arfaethedig, fel y nodir yn y polisi cydsynio)**

Tystiaf fod gan y claf hwn, yn fy marn i, alluedd i gydsynio i’r driniaeth hon fel y’i diffinnir yn Neddf Galluedd Meddyliol (2005)

OES/NAC OES

(Os NAC OES, neu’n ansicr, rhaid llenwi ffurflen Asesiad Galluedd Meddyliol a’i hatodi)

Gellir ysgrifennu unrhyw wybodaeth ategol yma:

Mae lle yn dilyn ar gyfer datganiad byr i gefnogi’r ateb OES ac i ychwanegu unrhyw ffactorau risg unigol a drafodwyd:

Rwyf wedi egluro’r driniaeth i’r claf/rhiant. Yn benodol, rwyf wedi egluro:

**Y manteision a fwriedir:** Gwella ansawdd y golwg.

**Risgiau difrifol capsiwlotomi laser:**

**Cyffredin hyd at 1 o bob 20, dros dro fel arfer**

- Mae brychau yn y llygad yn gyffredin wedyn ac yn ddiniwed fel arfer ond gallant fod yn barhaus
- Cynnydd byrhoedlog yn y gwasgedd yn y llygad
- Anghysur
- Llid yn siambr flaen y llygad

**Llai cyffredin hyd at 1 o bob 100**

- Y macwla’n chwyddo (oedema macwlaidd)
- Newid yn y plygiant yn y llygad
- Y driniaeth yn methu

**Prin hyd at 1 o bob 1000**

- Niwed i’r lens sydd wedi’i fewnblannu yn y llygad
- Rhwyg/datodiad y retina
- Afleoli’r lens sydd wedi’i fewnblannu

**Risgiau eraill/aml ar gyfer capsiwlotomi laser:**

- **Alergedd:** i'r diferion a roddir ar ôl y llawdriniaeth, gan achosi llygad chwyddedig sy’n cosi hyd nes y bydd y diferion yn stopio cael eu defnyddio neu'n cael eu newid.
- **Brychau**: Gallai darnau bach o gapsiwl lens ymddangos ar draws y golwg. Daw’r rhain yn llai amlwg fel arfer gydag amser.
- **Fflachiadau:** Fflachiadau o olau yn y llygad am ennyd.
- **Haint:** Ar achlysuron prin, gallai’r llygad ddatblygu haint, neu fynd yn goch a phoenus.

- **Triniaeth laser ddilynol:** mewn achosion prin iawn, gall fod angen ail driniaeth laser.

Dewisiadau eraill yn hytrach na llawdriniaeth: Nid oes unrhyw driniaethau yn lle capsiwlotomi laser YAG ar hyn o bryd.

**COVID-19:** Yn y mwyafrif o achosion, mae COVID-19 yn achosi salwch ysgafn, hunan-gyfyngol ond gall y symptomau fod yn amrywiol iawn ymhlith unigolion ac mae'n bwysig eich bod yn deall y proffil risg penodol i chi'ch hun.
**Nid oes unrhyw sicrwydd o sero risg o drosglwyddo COVID-19. Am ragor o wybodaeth: www.gov.uk/coronavirus**

Rwyf hefyd wedi trafod yr hyn y mae'r driniaeth yn debygol o'i gynnwys, manteision a risgiau unrhyw driniaethau amgen sydd ar gael (gan gynnwys dim triniaeth) ac unrhyw bryderon penodol sydd gan y rhai sy'n gysylltiedig.

- Mae manylion cysylltu os bydd y claf yn awyddus i drafod opsiynau cyn y driniaeth i'w cael ar eu llythyr penodiad neu ar y daflen cysylltiadau defnyddiol ac argyfwng a ddarperir gyda'r llyfryn hwn

- Llofnodwch y ffurflen cydsynio yn y llyfryn gwybodaeth i gleifion melyn

LLOFNOD | ENW (llythrennau bras) SWYDD | TEITL | DYDDIAD

D D M M B B B B

**Datganiad y claf (neu'r person sy'n gyfrifol am y claf)**

- Cytunaf i gael y driniaeth a ddisgrifir uchod.
- Rwy'n deall na allwch roi sicrwydd i mi y bydd person penodol yn cyflawni'r driniaeth. Bydd gan yr unigolyn, fodd bynnag, brofiad priodol.
- Rwy'n deall y bydd y driniaeth yn cynnwys anaesthesia lleol.

LLOFNOD | ENW (llythrennau bras) | DYDDIAD

D D M M B B B B

**Datganiad cyfieithydd ar y pryd (lle bo'n briodol)**

Rwyf wedi cyfieithu'r wybodaeth uchod i'r claf hyd eithaf fy ngallu ac mewn ffordd y credaf y gall ef/hi ei ddeall.

LLOFNOD | ENW (llythrennau bras) | DYDDIAD

D D M M B B B B

MAE’R DUDALEN HON YN WAG YN

MAE’R DUDALEN HON YN WAG YN

MAE’R DUDALEN HON YN WAG YN